**GORCHYMYN GWYRO LLWYBR CYHOEDDUS**

**DEDDF PRIFFYRDD 1980- ADRAN 119**

**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR**

**(DARGYFEIRIO LLWYBR TROED 23 MERTHYR MAWR)**
**GORCHYMYN GWYRO LLWYBR CYHOEDDUS RHIF 2 2025**

Gwneir y Gorchymyn hwn gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ("yr awdurdod") o dan Adran 119 o Ddeddf Priffyrdd 1980 ("Deddf 1980") oherwydd ei bod yn ymddangos i'r awdurdod, er budd perchnogion y tir a groesir gan y llwybr troed a ddisgrifir ym mharagraff 1 y Gorchymyn hwn, a'r cyhoedd, y byddai'n hwylus dargyfeirio llinell y ffordd.

**DRWY'R GORCHYMYN HWN:**

1. Caeir yr hawl tramwy cyhoeddus dros y tir sydd wedi ei leoli yng Ngwarchodfa Natur Genedlaethol Merthyr Mawr, Merthyr Mawr, Pen-y-bont ar Ogwr ac a ddangosir â llinellau parhaus trwm ar y map sydd ynghlwm wrth y Gorchymyn hwn ac a ddisgrifir yn Rhan 1 o'r Atodlen iddo, ymhen 28 diwrnod o ddyddiad cadarnhau'r Gorchymyn hwn.

2. Ar ddiwedd 28 diwrnod o ddyddiad cadarnhau'r gorchymyn hwn bydd llwybr troed cyhoeddus dros y tir sydd wedi ei leoli yng Ngwarchodfa Natur Genedlaethol Merthyr Mawr, Merthyr Mawr, Pen-y-bont ar Ogwr a ddisgrifir yn Rhan 2 o'r Atodlen ac a ddangosir â llinell doredig drom ar y map sydd ynghlwm wrth y gorchymyn hwn.

Gosodwyd SÊL GYFFREDIN CYNGOR )
BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT )
AR OGWR yma ar y dydd o )
2025
ym mhresenoldeb:-

……………………………………
LLOFNODWR AWDURDODEDIG

Mae **CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR** wrth arfer y pwerau a roddwyd iddynt yn hynny o beth, drwy hyn yn cadarnhau'r gorchymyn hwn:

CADARNHEIR Y GORCHYMYN HWN FEL GORCHYMYN DIWRTHWYNEBIAD.

Gosodwyd Sêl Gyffredin **CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR** )
yma ar y diwrnod o 2025 ym mhresenoldeb )
Llofnodwr Awdurdodedig: ……………………………………. )

**ATODLEN**
**RHAN 1**
**DISGRIFIAD O SAFLE'R LLWYBR NEU'R FFORDD BRESENNOL**


Y rhan honno o Lwybr Troed 23 Merthyr Mawr, sy'n cychwyn wrth Bwynt A (Cyfeirnod Grid SS 8718 7718) 23 metr i'r de o'r fynedfa i Faes Parcio Heol Merthyr ac yn mynd ymlaen i gyfeiriad de-ddwyreiniol yn gyffredinol am oddeutu 270 metr ac yna'n mynd ymlaen i gyfeiriad de-orllewinol yn gyffredinol am 781 metr at Bwynt B (Cyfeirnod Grid SS 8684 7639) fel y dangosir ar y map.

Cyfanswm hyd y rhan o'r Llwybr Troed sydd i gael ei wyro yw oddeutu 1051 metr. 1.2 metr yw'r lled.

**RHAN 2**
**DISGRIFIAD O SAFLE'R LLWYBR NEU'R FFORDD NEWYDD**

Adran newydd o'r Llwybr Troed sy'n cychwyn oddi wrth Bwynt A (Cyfeirnod Grid SS 8718 7718) ar Lwybr Troed 23, oddeutu 23 metr i'r de o'r fynedfa i Faes Parcio Heol Merthyr ac yn mynd ymlaen i gyfeiriad de-ddwyreiniol yn gyffredinol am oddeutu 19 metr at Bwynt C (Cyfeirnod Grid SS 8719 7716), ac wedyn yn mynd ymlaen i gyfeiriad y de yn gyffredinol am 31 metr at Bwynt D (Cyfeirnod Grid SS 8720 7713), ac wedyn yn mynd ymlaen i gyfeiriad de-ddwyreiniol yn gyffredinol am oddeutu 63 metr at Bwynt E (Cyfeirnod Grid SS 8724 7709),yna'n mynd ymlaen I gyfeiriad y de yn gyffredinol am 90 metr at Bwynt F (Cyfeirnod Grid SS 8725 7700), yna'n mynd ymlaen i gyfeiriad de-ddwyreiniol yn gyffredinol am 74 metr at Bwynt G (Cyfeirnod Grid SS 8729 7694), yna'n mynd ymlaen i gyfeiriad de-orllewinol yn gyffredinol am 175 metr at Bwynt H (Cyfeirnod Grid SS 8718 7680), ac wedyn yn mynd ymlaen i gyfeiriad y de yn gyffredinol am 82 metr at Bwynt I (Cyfeirnod Grid SS 8715 7673), wedyn yn mynd ymlaen i gyfeiriad de-orllewinol yn gyffredinol am 170 metr at Bwynt J (Cyfeirnod Grid SS 8700 7665), yna'n parhau yn y cyfeiriad de-orllewinol yn gyffredinol am 188 metr at Bwynt K (Cyfeirnod Grid SS 8691 7649), wedyn yn parhau yn y cyfeiriad de-orllewinol yn gyffredinol am 34 metr at Bwynt L (Cyfeirnod Grid. SS 8689 7647), ac yna'n parhau yn y cyfeiriad de-orllewinol yn gyffredinol am 16 metr at Bwynt M (Cyfeirnod Grid SS 8688 7646), yna'n mynd ymlaen ar draws y bont droed am 14 metr at Bwynt N (Cyfeirnod Grid SS 8686 7646), yna'n mynd ymlaen i gyfeiriad de-orllewinol yn gyffredinol am 10 metr at Bwynt O (Cyfeirnod Grid SS 8686 7645), wedyn yn mynd ymlaen i gyfeiriad y de yn gyffredinol am 71 metr i ailymuno â Llwybr Troed 23 wrth Bwynt B (Cyfeirnod Grid SS 8684 7639), fel y dangosir ar fap y gorchymyn.

Cyfanswm hyd y llwybr yw oddeutu 1038 metr ac 1.2 metr yw ei led.




BRIDGEND COUNTY BOROUGH COUNCIL

**COMMUNITIES DIRECTORATE**

*Corporate Director Communities*

Civic Offices
Angel Street
Bridgend CF31 4WB
Telephone (01656) 643643

PUBLIC PATH DIVERSION ORDER
HIGHWAYS ACT 1980 SECTION 119

BRIDGEND COUNTY BOROUGH COUNCIL
(DIVERSION OF FOOTPATH 23 MERTHYR MAWR)
PUBLIC PATH DIVERSION ORDER NO.2 2025

Scale 1:2,500

**Date:** 04/03/2025

©Crown Copyright and database right 2024. Ordnance Survey AC0000851951. Use of this data is subject to terms and conditions.

©Hawlfraint a hawliau cronfa ddata'r Goron 2024. Rhif Trwydded yr Arolwg Ordnans AC0000851951. Mae defnydd o'r data hwn yn ddarostyngedig i delerau ac amodau.

DEDDF PRIFFYRDD 1980

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR
(DARGYFEIRIO LLWYBR TROED 23 MERTHYR MAWR)
GORCHYMYN GWYRO LLWYBR CYHOEDDUS RHIF 2 2025

K Watson,

Prif Swyddog Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio,
Adnoddau Dynol a Pholisi Corfforaethol
Cyfarwyddiaeth y Prif Weithredwr,
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr,
Y Swyddfeydd Dinesig,
Stryd yr Angel,
Pen-y-bont ar Ogwr
CF31 4WB.

Cyfeirnod Cyfreithiol: HIG001-1125 /TE/H/TP/FP23MER